Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru

Mawrth 2008

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Fersiwn hawdd i'w ddarllen

Cynnwys

Beth yw eiriolaeth? **3**

Pwy allai fod angen eiriolaeth? **3**

Sut y darperir eiriolaeth ar hyn o bryd? **3**

Gwybodaeth gefndir yn egluro pam fod angen dod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu eiriolaeth **4 - 6**

Yr angen am eiriolaeth annibynnol **7 - 10**

Safbwyntiau ar drefnu eiriolaeth ar lefel ranbarthol 8

Safbwyntiau ar drefnu eiriolaeth ar lefel ranbarthol a chenedlaethol 9

Safbwyntiau ar drefnu eiriolaeth ar lefel genedlaethol 9 - 10

Cynigion y pwyllgor 1 – 2 **10**

Yr angen am eiriolwyr hyfforddedig sy'n dda yn eu swydd **11 - 12**

Safbwyntiau sefydliadau a safbwyntiau plant a phobl ifanc 11

Cynigion y pwyllgor 3 – 7 12

Yr angen am wasanaethau eirioli y gellir cael gwybodaeth amdanynt yn hawdd **13 - 14**

Safbwyntiau sefydliadau a safbwyntiau plant a phobl ifanc 13

Cynigion y pwyllgor 8 – 11 14

Beth yw risg o berygl neu o niwed? 14

Yr angen am wasanaeth dibynadwy sydd â digon o arian **15**

Cynnig y pwyllgor 12 15

Sut i gael mwy o gopïau o'r ddogfen hon **15**

Mae hwn yn fersiwn hawdd i'w ddarllen o'r ddogfen wreiddiol:

'Gwasanaethau Eirioli ar Gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru'
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Mawrth 2008

Beth yw eiriolaeth?

Mae angen cymorth ar blant a phobl ifanc weithiau i sicrhau bod eu **lleisiau'n cael eu clywed**.

Mae angen cymorth a chefnogaeth eiriolwyr ar blant a phobl ifanc weithiau i gynrychioli eu safbwyntiau a'u dymuniadau er mwyn:

• sicrhau bod rhywbeth yn digwydd
• sicrhau bod rhywbeth yn newid
• sicrhau bod rhywbeth yn stopio

Pwy allai fod angen gwasanaethau eirioli?

Bydd rhai plant a phobl ifanc:

- yn byw mewn gofal
- ar fin gadael gofal neu eisoes wedi gadael gofal
- yn derbyn gwasanaethau gan eu hawdurdod lleol
- mewn cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol

Sut mae eiriolaeth yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd?

O dan ddeddfwriaeth gyfredol, rhaid i **awdurdodau lleol** drefnu gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae **awdurdodau lleol** yn darparu gwasanaethau fel addysg, gwasanaethau cyngor a gwasanaethau cymdeithasol yn eich sir.

Gall awdurdodau lleol:

- ddarparu gwasanaethau eirioli eu hunain neu

- trefnu bod sefydliad arall yn eu darparu, megis mudiad gwirfoddol. **Gelwir hyn y gomisiynu.**

Mae'r adroddiad hwn yn trafod cynnig ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Cefndir yr adroddiad hwn sy'n trafod pam fod angen dod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau eirioli

1990au – Canfod achosion o gam-drin plant

Ar ddiwedd y 1990au canfuwyd bod rhai plant a oedd yn derbyn gofal mewn catrefi plant wedi cael eu cam-drin.

Edrychwyd yn fanwl ar y mater o gam-drin plant a chafwyd awgrymiadau ar gyfer eiriolaeth

Cyhoeddwyd adroddiadau yn datgan bod **angen eiriolaeth annibynnol** i sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed os nad ydynt, er enghraifft, yn hapus â'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn.

Roedd yr adroddiadau'n datgan bod angen gwasanaethau eiriolaeth ar blant a phobl ifanc fel ffordd o'u gwarchod ac i sicrhau bod eu barn cael ei chlywed.

Mae adroddiadau diweddarach hefyd wedi cynnig nifer o argymhellion ar sut i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth.

Mawrth 2007: Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno cynigion ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli

Fel ymateb i'r adroddiadau hyn, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei chynigon ei hun, sef:

'Model Gwasanaeth Newydd ar gyfer cyflwyno Gwasanaethau Eirioli i Blant a Phobl Ifanc'.

Yn y ddogfen hon, mae'r Llywodraeth yn cynnig:

Darparu gwasanaethau eirioli yn rhanbarthol drwy Bartneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc.

Rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2007 cafodd pobl gyfle i fynegi eu **barn** ar yr ymgynghoriad hwn. Roedd barn pobl yn amrywio o ran sut y dylid darparu gwasanaethau eiriolaeth.

Gan fod cryn amrywiaeth ym marn pobl, roedd angen ymchwil pellach i benderfynu ar y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau eiriolaeth.

Mawrth 2007 – Mawrth 2008:

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn craffu'n ofalus ar gynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ar safbwyntiau amrywiol

Beth yw'r Pwyllgor Plant a Phobl ifanc?

Mae'r pwyllgor hwn yn rhan o Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn deddfu ac yn craffu ar bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ar sut y mae'n gwario ei chyllideb.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn llywodraethu Cymru.

Clywodd y Pwyllgor farn amrywiaeth eang o bobl, yn cynnwys:

- Comisiynwyr eiriolaeth (sy'n trefnu bod pobl eraill yn darparu'r gwasanaeth ac yn rhoi arian iddynt wneud hynny)

- Darparwyr eiriolaeth (sy'n darparu'r gwasanaeth)

- Mudiadau gwirfoddol

- Plant a phobl ifanc

Mawrth 2008: Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn cyhoeddi'r ddogfen:

'Gwasanaethau Eirioli ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru', Mawrth 2008

Mae’r ddogfen hon yn cynnig camau y dylid eu cymryd i Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae’r adroddiad yn ystyried pedwar o anghenion pwysig, sef yr angen am:

1. Gwasanaethau eirioli annibynnol

2. Eiriolwyr hyfforddedig ac sy’n dda yn eu swydd

3. Gwasanaethau eirioli y gellir cael gwybodaeth amdanynt yn hawdd

4. Gwasanaeth dibynadwy sydd â chyllid cyson

Bydd y pedwar maes pwysig hyn yn cael eu hystyried yng ngweddill y ddogfen hon.

Cyflwynwyd 12 cynnig gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a nodir o dan y pennawd perthnasol.

Nodir y cynigion hyn mewn ffont glas golau.

1. Yr angen am eiriolaeth annibynnol

Roedd pawb yn cytuno bod angen i wasanaethau eirioli fod yn annibynnol, er mwyn i bobl ifanc gael hyder yn y gwasanaeth ac ymddiried ynddo.

Beth yw eiriolaeth annibynnol?

Mae eiriolwyr yn hollol ar wahân i'r sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau.

Nid yw eiriolwyr annibynnol yn atebol i reolwyr unrhyw wasanaethau eraill y mae pobl ifanc yn dibynnu arnynt, fel gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai nac addysg.

Mae eiriolwyr annibynnol yn gweithredu yn unol â dymuniadau'r plentyn neu berson ifanc yn unig.

Nid fydd eiriolwr annibynnol yn defnyddio ei farn bersonol nac yn ceisio dylanwadu ar benderfyniad plentyn neu berson ifanc.

Fel y nodwyd eisoes, mae gan bobl safbwyntiau gwahanol o ran sut y dylid darparu gwasanaethau eirioli a sut i ddarparu gwasanaeth sy'n wirioneddol annibynnol.

Mae amrywiaeth barn o ran y tair gwahanol ffordd o ddarparu eiriolaeth:

Model 1: Cynnig Llywodraeth Cynulliad Cymru:
Darparu eiriolaeth yn rhanbarthol drwy'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc

Beth yw Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc?

Mae gan bob un o 22 awdurdod lleol Cymru Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc.

Mae'r partneriaethau'n gweithio i wella gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc.

Maent yn cynnwys gwahanol gyrff megis y gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion, mudiadau gwirfoddol, sefydliadau iechyd, yr heddlu a chyflogaeth.

Dywedodd pobl wrth y Pwyllgor pam eu bod yn hoffi'r model rhanbarthol:

Mae tri phrif reswm:

- Gan fod y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a'r darparwr eiriolaeth yn yr un sir, gallant gyfathrebu'n hawdd.

- Gan fod y model rhanbarthol wedi'i seilio ar ranbarthau awdurdodau lleol, mae'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc lleol ar lefel leol.

- Gall eiriolaeth ranbarthol fod yn annibynnol gan nad yw'r eiriolwyr yn atebol i'r awdurdod lleol.

Fodd bynnag, dywedodd pobl fod angen gwella'r model i sicrhau:

- y caiff ei rheoli'n effeithiol

- y caiff ei archwilio i weld a yw'n gweithio'n iawn

Model 2: Cymysgedd o eiriolaeth ranbarthol a chenedlaethol

Roedd rhai pobl o blaid trefnu mwyafrif y gwasanaethau ar **lefel ranbarthol**.

Mewn achosion lle mae anghenion arbenigol, fel plant a phobl ifanc sy'n dod o wlad arall i chwilio am gartref yng Nghymru (sef 'ceisio lloches'), efallai y byddai **model cenedlaethol** yn well.

Model 3: Eiriolaeth Genedlaethol

Ystyr Eiriolaeth Genedlaethol yw gwasanaethau eirioli gwahanol yn cael eu trefnu o un man canolog yng Nghymru.

Dywedodd pobl wrth y Pwyllgor pam eu bod yn ffafrio'r model cenedlaethol:

Dyma'r rhesymau:

- Byddai darparu gwasanaethau eirioli ar lefel genedlaethol yn golygu y gellir eu **hariannu'n annibynnol**. Byddai cyllid yn dod o Lywodraeth Cynulliad Cymru i sefydliad cenedlaethol sy'n annibynnol ar awdurdodau lleol.

- Yna byddai'r sefydliad hwnnw'n comisiynu gwasanaethau eiriolaeth lleol ar gyfer gwahanol ardaloedd lleol.

Dywedodd y bobl a oedd yn ffafrio'r model cenedlaethol pam nad oeddent yn ffafrio'r model rhanbarthol:

- Nid oeddent yn credu y byddai'r model rhanbarthol yn rhoi annibyniaeth gan y byddai darparwyr eiriolaeth yn parhau i gael eu hariannu gan yr awdurdodau hynny y gallai fod gofyn arnynt i'w herio yn y dyfodol.

Gall hyn godi pan fo gofyn ar eiriolwyr i herio'r gwasanaethau cymdeithasol (cyllidwyr).

Mae gwasanaethau cymdeithasol a darparwyr eiriolaeth yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol i'w gilydd.

Rhaid i'r **gwasanaethau cymdeithasol** weithredu er **budd a lles plant**.

Rhaid i **eiriolwyr** siarad **ar ran plant** hyd yn oed os gallai dymuniadau'r plant fod yn niweidiol i'w lles.

- Os awdurdodau lleol sy'n gofalu am y cyllid, efallai y byddant yn penderfynu na allant fforddio ariannu gwasanaethau eirioli.

- Nid oes gan Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc brofiad o drefnu gwasanaethau eirioli. Mae'r sefydliadau sy'n rhan o'r bartneriaeth yn gweithredu mewn ffyrdd amrywiol.

- Mae gwasanaethau eraill yng Nghymru yn cael eu rheoli'n effeithiol gan sefydliadau cenedlaethol sy'n trefnu bod darparwyr lleol yn darparu'r gwasanaethau.

- Os mai sefydliad cenedlaethol oedd yn trefnu gwasanaethau eirioli lleol, byddai'n cael ei wneud mewn ffordd gyson led led Cymru.

Barn y pwyllgor a chynigion ar gyfer eiriolaeth annibynnol

Bu'r pwyllgor yn ystyried safbwyntiau pawb ar y tair ffordd o ddarparu eiriolaeth.

Penderfynodd y pwyllgor mai **annibyniaeth** yw'r elfen bwysicaf wrth ddarparu eiriolaeth.

Roedd y pwyllgor yn credu mai'r ffordd orau o ddarparu eiriolaeth annibynnol oedd drwy gomisiynu eiriolaeth drwy gorff cenedlaethol

Bydd gwybodaeth leol y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn ddefnyddiol i **roi cyngor am yr ardal leol** wrth drefnu gwasanaethau eirioli.

Efallai y bydd angen **deddfwriaeth newydd** i ddileu dyletswyddau presennol awdurdodau lleol i 'wneud trefniadau' ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli.

Cynnig 1: Llywodraeth Cynulliad Cymru **i sefydlu ac ariannu Corff Eiriolaeth Cenedlaethol** a fydd yn gyfrifol am drefnu gwasanaethau eirioli annibynnol mewn ardaloedd lleol yng Nghymru.

Cynnig 2: **Dylid cynnwys plant a phobl ifanc** wrth benderfynu pwy fydd yn gyfrifol am reoli'r corff.

2. Yr angen am eiriolwyr hyfforddedig sy'n dda yn eu swyddi

Safbwyntiau sefydliadau a safbwyntiau plant a phobl ifanc

Mae llawer o bobl yn credu y dylai eirioli fod yn waith cydnabyddedig. Ar hyn o bryd, nid oes angen cymhwyster ar eiriolwyr.

Mae **hyfforddiant ar gyfer eiriolwyr** yn hanfodol er mwyn sicrhau eu bod yn dda yn eu swyddi.

Byddai'n bosibl darparu hyfforddiant ar sail genedlaethol drwy Gorff Eiriolaeth Cenedlaethol lle y byddai'n bosibl ennill cymhwyster.

Fodd bynnag, nid oedd pobl yn credu bod angen i eiriolwyr gael cymhwyster gwaith cymdeithasol neu gymwysterau coleg/prifysgol.

Roedd rhai pobl yn credu y dylai eiriolwyr gael y gallu **i wrando ac i roi cyngor**. Mae hyn yn bwysig gan yn aml bydd gan yr eiriolwr gysylltiad emosiynol â'r plentyn neu berson ifanc.

Mae angen i eiriolwyr gael y gallu i **ddilyn achosion i'r pen** ac i fod yn gefn i'r plentyn neu berson ifanc.

Mae **eiriolaeth leyg** yn bwysig. *Dyma eirioli mwy hamddenol lle mae eiriolwyr yn bobl y mae rhywun yn ei adnabod yn eu cymuned ac sy'n ei helpu dros gyfnod byr.*

Mae **eiriolaeth cymheiriaid** yn bwysig. *Dyma eirioli lle mae'r eiriolwr yn berson ifanc hefyd, sydd wedi rhannu profiadau tebyg i'r plentyn neu berson ifanc.*

Mae **hunaneiriolaeth** yn bwysig. *Dyma pan all blentyn neu berson ifanc siarad ar ei rhan ei hun.*

Cynigon y pwyllgor i hyfforddi eiriolwyr er mwyn iddynt fod yn dda yn eu swyddi

Cynnig 3: Gallai'r Corff Eiriolaeth Cenedlaethol ddarparu **rhaglen hyfforddi ar gyfer eiriolwyr** yn dysgu amrywiaeth o sgiliau, a fyddai'n cynnwys sgiliau gwrando, cydymdeimlad, adeiladu perthnasau a chwnsela. Dylai'r hyfforddiant hwn gynnwys pobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau eirioli yn y gorffennol a phlant a phobl ifanc.

Cynnig 4: Dylai'r Corff Eiriolaeth Cenedlaethol ddarparu **hyfforddiant ar gyfer eiriolwyr lleyg**. Efallai bydd y bobl hyn yn rhan o'r gymuned, yn cynnwys athrawon, cwnsleriaid, meddygon a glanhawyr.

Cynnig 5: Dylai'r Uned Eiriolaeth Cenedlaethol ddarparu **hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau eirioli lleol** i'w cynorthwyo yn y broses o helpu plant a phobl ifanc i siarad ar eu rhan eu hunain ac i gynrychioli eu hunain.

Cynnig 6: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru **gadw llygad ar waith y Corff Eiriolaeth Cenedlaethol** ac ar waith darparwyr eiriolaeth lleol. Dylai'r rheiny sy'n cadw llygad ar y gwasanaethau fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Cynnig 7: Wrth gadw llygad ar wasanaethau eiriolaeth, dylid ystyried **sgiliau'r darparwyr eiriolaeth.**

3. Yr angen am wasanaethau eirioli y gellir cael gwybodaeth amdanynt yn hawdd

Safbwyntiau sefydliadau a safbwyntiau plant a phobl ifanc

Roedd llawer o blant a phobl ifanc yn ei chael yn anodd dod o hyd i wybodaeth am wasanaethau eiriolaeth.

Ychydig iawn o wybodaeth am wasanaethau eirioli oedd yn cael ei rhoi i blant a phobl ifanc. Mae angen dosbarthu **posteri a thaflenni** mewn lleoedd amlwg fel ysgolion a chlybiau ieuenctid.

Roedd y pwyllgor yn credu ei bod yn bwysig sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod am wasanaethau eiriolaeth.

Dylai plant a phobl ifanc sy'n gadael cartrefi gofal dderbyn **rhifau ffôn** ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth.

Roedd plant a phobl ifanc yn credu bod cynnig Llywodraeth Cynulliad Cymru i sefydlu **gwasanaeth ffôn a neges destun am ddim** yn un da.

Nid oedd rhai plant a phobl ifanc **wedi cael dewis o ran pwy fyddai eu heiriolwr**.

Roedd plant a phobl ifanc am gael eiriolwyr y gallent eu gweld yn hawdd ac y gallent gysylltu â hwy'n hawdd dros y ffôn.

Dylai fod yn amlwg pan fo gwybodaeth a roddir i'r eiriolwr gan y plentyn neu'r person ifanc yn:

- **breifat neu**

- iawn i rannu'r wybodaeth ag eraill.

Roedd plant a phobl ifanc am gael y dewis o siarad a'u heiriolwyr **ar ben eu hunain, heb i bobl eraill gael gwybod.**

Cynigion y pwyllgor i sicrhau ei bod yn hawdd cael gwybodaeth am wasanaethau eirioli

Cynnig 8: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o sefydlu **gwasanaeth ffôn a neges destun am ddim**. Dylai'r gwasanaeth hwn fod am ddim o ffôn symudol hefyd. Dylai'r gwasanaeth hwn fod ar gael 24 awr y dydd.

Cynnig 9: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru **gynnwys plant a phobl ifanc** yn y broses o ddatblygu hysbysebion ar gyfer y gwasanaeth ffôn a neges destun newydd.

Dylai'r gwasanaeth hwn egluro beth yw eiriolaeth a sut y gall helpu plant a phobl ifanc.

Cynnig 10: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael **dewis ei eiriolwr ei hun**.

Cynnig 11: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod sylwadau plentyn neu berson ifanc i'r eiriolwr yn aros yn breifat.

Yr unig bryd na ddylid cadw eu sylwadau'n breifat yw pan fo cadw'n dawel gadael y plentyn neu berson ifanc yn agored i berygl neu i niwed.

Beth yw risg o berygl neu o niwed?

Gall hyn fod yn:

- **niwed corfforol** - fel taro, ysgwyd neu losgi

- **niwed rhywiol** - fel gorfodi plant neu bobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol

- **niwed emosiynol** - peidio â thrin plant neu bobl ifanc yn dda fel nad ydynt yn teimlo'n dda yn feddyliol

- **esgeulustod** - peidio ag edrych ar ôl plant neu bobl ifanc, drwy beidio â'u cadw'n gynnes neu drwy beidio â rhoi digon o fwyd iddynt

4. Yr angen am wasanaeth dibynadwy sydd â digon o arian

Mae gwasanaethau eirolaeth yn aml yn cael eu hariannu drwy gytundeb blwyddyn, dwy flynedd neu tair blynedd. Yn ôl rhai, nid yw hyn yn beth da oherwydd:

- Nid yw'n galluogi eiriolwyr i fod yn sicr y gallant barhau i ddarparu eu gwasanaeth

- Ni all eiriolwyr gynllunio ymlaen llaw

Cynnig 12: Dylai'r Corff Eiriolaeth Cenedlaethol ariannu gwasanaethau eiriolaeth am **leiafswm o dair blynedd**, a byddai cyfle i estyn yr arian.

Mae hwn yn fersiwn hawdd i'w ddarllen o'r brif ddogfen

'Gwasanaethau Eirioli ar Gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru'

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Mawrth 2008

Cyhoeddwyd y ddogfen gan y Gwasanaeth Gwybodaeth Hygyrch sy'n cael ei ddarparu gan Anabledd Dysgu Cymru
http://www.learningdisabilitywales.org.uk

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

Mae copïau o'r ddogfen hon a'r fersiwn llawn ar gael drwy gysylltu â:

Linda Heard
Gwasanaeth y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Rhif ffôn: 029 20898149
E-bost: Linda.Heard@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: www.cynulliadcymru.org